| | |
|---|---|
| | **Barn gryno Cwestiwn 5**<br>**Arweinyddiaeth a rheolaeth** |
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| **5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr** | |
|---|---|
| | |
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol** | Mae nodau ac amcanion yr adran wedi eu nodi'n glir yn y llawlyfr adran ac mae pob aelod o staff yn ymwybodol o`r prif flaenoriaethau cyfredol. Mae hyn yn ei dro wedi cael effaith gadarn ar godi safonau sydd bellach yn dda iawn. Mae adnabod blaenoriaethau ar gyfer y CDA yn cynnwys holl staff yr adran ac yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu. |
| **Swydd ddisgrifiadau** | Mae gan bob aelod o staff yr adran swydd ddisgrifiad cyfredol sydd yn manylu ar yr hyn a ddisgwylir yn enwedig mewn perthynas â chyfraniad unigolion tuag at ddatblygu potensial pob plentyn. Golyga hyn fod pob aelod o'r adran yn ymgymryd â'u rôl mewn modd briodol. Mae ansawdd y swydd ddisgrifiadau yn dda iawn. |
| **Cynlluniau gwaith ar gyfer yr ystod oedran a gallu llawn** | Mae'r rhaglenni gwaith wedi cael eu haddasu dros gwyliau'r Haf 2017 ac yn daparu ar gyfer yr ystod oedran, gallu a'r ystod anghenion. Mae popeth wedi cael ei wahaniaethu ar gyfer yr ystod gallu gwahanol hefyd.<br>Eleni dim ond y Penaneth adran sy'n dysgu o fewn yr adran arwahan i RW efo un dosbarth, sy'n treialu dysgu dyniaethau drwy staff adran iaith.Mae'r Penaneth adran wedi rhoi cynlluniau gwaith iddi a mae yna drafodaethau wedi bod ynglyn a'r ffordd ymlaen-ond bydd angen ail edrych ar hyn eto yn dilyn cyfnod treialu er mwyn gweld pa mor llwyddiannus mae hyn wedi bod o ran addysgu'r pwnc Addysg Grefyddol yn effeithiol. |
| **Dogfennaeth arweiniad a gweithdrefnau adrannol** | Mae cynlluniau gwaith yr adran a dogfennaeth arweiniad adrannol yn rhoi arweiniad clir i bob aelod o staff o`r adran e.e. cynlluniau gwersi, arweiniad ar llythrennedd, rhifedd, darllen a TGCH.<br>Mae ansawdd llawlyfr adrannol yn dda efo pholisiau manwl a pherthnasol.<br>Ceir polisiau addrannol effeithiol. Addaswyd rhain eleni ac meant yn cael eu gweithredu yn rheolaidd.<br>Mae'r adran yn gweithredu canllawiau ysgol gyfan o fewn yr adran. |
| **Blaenoriaethau cenedlaethol.** | Mae'r adran yn ymateb yn briodol i ofynion cenedlaethol megis llythrennedd, rhifedd, sgiliau meddwl a`r rhaglen gwrth dlodi.<br><br>• Llythrennedd: Rhoddwyd arweiniad clir a chadarn i'r adran ar gyfer rhoi ffocws i wella sgiliau ysgrifennu. Mae gwaith dysgwyr yn dangos tystiolaeth o welliant yn ansawdd y gwaith ysgrifenedig estynedig a gynhyrchir o fewn y pwnc gan y dysgwyr. Mae'r adran wedi gweithio yn agos iawn efo'r cydgysylltydd llythrennedd er mwyn adnabod cyfleoedd ychwanegol er mwyn hyrwyddo'r fframwaith Llythrennedd cenedlaethol o fewn y cynlluniau gwaith, lle cyfeirir at y fframwaith yn reolaidd ar gyfer pob tasg. Mae'r adran hefyd wedi creu mpll ar gyfer tasgau sydd yn cyfeirio'n benodol at y fframwaith llythrennedd ynddynt.<br><br>• Rhifedd: Mae`r adran wedi adnabod agweddau o rifedd mae`r adran yn gyfrifol am eu datblygu drwy gyfarfod y cydlynydd Rhifedd ac o ganlyniad wedi adnabod cyfleoedd o fewn y pwnc i ddatblygu sgiliau rhifedd y disgyblion o fewn Addysg grefyddol e.e. Tasg crefyddau mawr y byd a'r cylch creu. Mpll rhifedd ar gyfer y tasg cylch creu.<br><br>• Sgiliau meddwl: Rhoddwyd arweiniad clir a chadarn i aelodau o'r adran ar gyfer rhoi ffocws i wella sgiliau meddwl y disgyblion ac mae sgiliau disgyblion bellach yn dda iawn yn y maes yma. Gweler tystiolaeth o hyn yn llyfrau'r disgyblion, adroddiadau arsylwi gwersi ac yn cynlluniau gwaith yr adran.<br><br>Agenda gwrth dlodi: Mae`r adran yn llwyr ymwybodol o`r angen i ddarparu cefnogaeth gadarn ar gyfer disgyblion o gartrefi difreintiedig ac yn cyfrannu'n |

| | Barn gryno Cwestiwn 5<br>Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| | gadarn o fewn blaenoriaeth amlwg yr ysgol i sicrhau cefnogaeth amlwg. Mae'r adran yn adnabod y disgyblion CADD ac yn ei monitro yn agos er mwyn sicrhau eu bod am gyrraedd eu targedau ac ymyrryd fel bo'r angen e.e. drwy gynnal sesiynau adolygu ychwanegol neu drwy roi cefnogaeth ychwanegol ar ôl ysgol i gynorthwyo'r disgyblion yma efo'i gwaith. |
| **Cyfathrebu a chydweithio. Cyfarfodydd adran a chyswllt â'r UDRH** | Ceir strwythur ac agenda clir ar gyfer cyfarfodydd cyfadrannol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd a chaiff pob aelod o`r adran a'r UDRh gopi o gofnodion adrannol yn wythnosol. Aelodau ymylol o'r adran yn mynychu yn ol yr amserlen a geir gan yr Udrh. Cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal er mwyn trosglwyddo gwaith, monitro ayyb.<br><br>Mae cyswllt effeithiol rhwng y Pennaeth Adran a'r cyswllt UDRh sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cydweithio i sicrhau fod yr adran yn gweithredu yn unol â chyfeiriad yr ysgol. Mae`r cydweithio hwn wedi bod o gymorth i`r adran ddatblygu darpariaeth llwyddiannus ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. Mae cyswllt yr adran efo'r cyswllt Udrh yn arbennig o dda gan mai'r un person yw pennaeth y gyfadran Dyniaethau. Mae`r drefn yn cynnal lefel uchel o her ac atebolrwydd.<br><br>Mae gan y Pennaeth adran ddisgwyliadau uchel iawn o ran y staff sydd yn dysgu'r pwnc, disgyblion ac fy hun ac adlewyrchir hyn mewn adroddiadau arsylwadau gwersi ac adroddiadau monitor llyfrau.<br>Mae'r adran wedi bod yn rhannu arfer dda efo'r adran Daearyddiaeth wrth cydweithio ar arsylwi gwersi efo Pennaeth Adran Daearyddiaeth.<br>Ceir cyfarfodydd rheolaidd ble mae llwyddiannau yn cael eu trafod a nodir targedau er mwyn symud ymlaen.<br>Mae cyfarfodydd adrannol yn digwydd yn wythnosol o fewn yr adran ac yn achlysurol yn ffurfiol efo aelodau ffiniol-ond yn anffurfiol yn reolaidd. Darparir cofnodion adrannol sy'n ategu hyn. |
| **Hyrwyddo`r Gymraeg.** | Mae'r adran yn dilyn polisi marcio'r ysgol er mwyn gwella sgiliau llythrennedd y dysgwyr e.e. copiau o'r rheolau cywiro iaith yn nhu blaen pob llyfr. Mae gan pob disgybl hefyd, taflen ymateb i waith marcio'r adran yn eu llyfrau ble mae yna ddigwyl iddynt gywiro camsillafiadau ynddo. Mae gan pob tasg estynedig mpll sydd â ffocws iaith penodol arno sy'n cyd fynd a'r fframwiath llythrennedd. Mae gan yr adran bosteri rheolau iaith i fyny yn yr ystafell er mwyn atgoffa'r dysgwyr o rheolau iaith. Yn ogystal mae'r athro yn ymwybodol o'r angen i fod yn fodel iaith da ar gyfer y dysgwyr. Mae gan yr adran hefyd dermau pynciol yn amlwg ar y wal yn ogystal â thermau dwyieithog ar ddechrau pob uned o waith. |
| **Cyswllt CLL** | Mae'r adran wedi cael aelod o'r corff llywodraethol i fod yn gyswllt eleni, Mrs Eurliw Jones. |
| **Cynnal safonau uchel a chynnal darpariaeth gynaladwy** | Mae cynnydd disgyblion yn cael ei fonitro`n effeithiol. Mae trefniadau'r adran ar gyfer monitro safonau dysgu ac addysgu wedi arwain at weithredu effeithiol i ymyrryd a chodi safonau ar lefel uchel a dwys. Mae gan yr adran system tracio effeithiol ar gyfer monitor cyrhaeddiad disgyblion CA4.<br>Mae'r adran yn arfarnu cryfderau a gwendidau'r darpariaeth yn rheolaidd e.e. yn dilyn dadansoddi canlyniadau CA4 mae'r adran yn canolwbyntio ar gwella adrannau gwan y papur eleni er mwyn sicrhau gwelliant yn yr adran yma y flwyddyn nesaf.<br>Pa mor dda rydych yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaladwy a pha mor dda rydych yn gwneud penderfyniadau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cydbwyso anghenion uniongyrchol, tymor byr ag anghenion tymor hir disgyblion, y gymuned leol a Chymru. A oes hyder yn y dyfodol?<br>Mae'r adran yn myfyrio ar llwyddiannau a gwendidau yn rheolaidd er mwyn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella e.e. ar ol tasgau penodol, dadansoddi canlyniadau arholiad. Drwy wneud hyn mae posib I'r adran symud yn ei blaen yn hyderus ac er |

| | |
|---|---|
| | mwyn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol. |

| Tystiolaeth | |
|---|---|
| • Llawlyfr adran<br>• Swydd ddisgrifiad.<br>• Cynlluniau gwaith CA3.<br>• Cynlluniau gwaith CA4.<br>• Llyfrau dysgwyr. | • CDA.<br>• Cofnodion cyswllt adran + UDRH.<br>• Cofnodion cyfarfodydd adran.<br>• Data rhaglenni mamiaith (Adr. Gymraeg yn unig).<br>• Cofnod Rheoli Perfformiad. |

| 5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynlluniau gwella | |
|---|---|
| | |
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Ansawdd dogfen hunanarfarnu:** | Mae dogfen hunanarfarnu`r adran o safon dda. Mae pob aelod yn cyfrannu i'r arfarniad ac mae hyn wedi arwain at well perchnogaeth o ymarferiadau arsylwi gwersi a sampl o gwaith dysgwyr. Mae`r ddogfen yn ystyried barn fanwl y dysgwyr am y ddarpariaeth adrannol. Mae`r arfarniadau cryno oll yn cynnwys crynodeb penodol o brif gryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu ac mae hyn o gymorth i adnabod prif flaenoriaethau penodol y CDA. |
| **Trefn arfarnu** | Mae arfarniad adrannol yr adran yn safonnol iawn. Mae'r adrab yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth yn uniongyrchol o safonnau'r adran ac gwybodaeth am berfformiad y dysgwyr mewn arholiadau ayyb.<br>Mae'r tystiolaeth arfarnu wedi ei ddiwygio i adlewyrchu dull Estyn. |
| **Ansawdd a sail tystiolaeth hunanarfarnu a phrosesau coladu** | Mae ansawdd tystiolaeth a ddefnyddir fel sail i`r ddogfen hunanarfarnu yn gyfredol, ac yn fanwl a phenodol.<br><br>Mae tystiolaeth ar hyn o bryd yn gwneud defnydd da o arsylwadau gwersi gan amrywiaeth o bobl a monitro llyfrau'r disgyblion ac mae hyn yn sail i adnabod agweddau pellach i`w datblygu o fewn yr adran. Gwneir defnydd effeithiol o ddata CA3 a CA4 gan gynnwys: data craidd, data mewnol, data FFT, data WED, data walled garden CBAC a data gwerth ychwanegol er mwyn adnabod cryfderau'r adran ac er mwyn pennu meysydd ar gyfer gwella.<br><br>Gwneir defnydd effeithiol hefyd o:<br><br>• Dadansoddiad ymddygiad.<br>• Adroddiad ffocws yr UDRH.<br>• Dadansoddiad targedau.<br><br>Mae'r Pennaeth Adran wedi derbyn hyfforddiant gan yr UDRh ac ymgynghorwyr allanol ar gyfer arsylwi gwersi, ac mae hyn wedi mireinio a miniogi gallu'r pennaeth adran i arfarnu safonau yn y pwnc.<br><br>Mae strwythurau ar gyfer rhannu arferion da wedi arwain at welliannau amlwg yn ansawdd y dysgu a'r addysgu o fewn y pwnc ac yn benodol felly yng nghyd-destun llythrennedd wedi i'r Pennaeth Adran cael treulio cyfres o gyfarfodydd efo'r cydgysylltydd llythrennedd er mwyn rhannu arfer dda ar sut i ddatblygu hyn ymhellach o fewn yr adran.<br><br>Mae`r adran yn monitro yn rheolaidd gan gwblhau arsylwadau gwersi a monitro llyfrau yn rheolaidd. Bydd yr adran yn gweithredu ar unrhyw awgrymiadau a gaiff eu gwneud yn dilyn y monitro llyfrau. Bydd y Pennaeth adran yn ail ymweld wedyn er mwyn sicrhau bod pob un yn yr adran wedi ymateb i'r sylwadau hyn a bod hyn yn weledol yn y llyfrau. |

| | Barn gryno Cwestiwn 5<br>Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

| | |
|---|---|
| | Mae`r adran yn defnyddio llais y dysgwr fel sail i adnabod adran. Caiff dysgwyr gyfle i fynegi barn;<br>• Am eu dulliau dysgu/addysgu mwyaf effeithiol.<br>• Am eu cryfderau a`r agweddau sydd fwyaf heriol iddynt.<br>• Am y dull o weithredu rhaglenni gwaith.<br><br>Defnyddir y dulliau hyn i gasglu gwybodaeth sef: trafodaethau; system adborth ar lafar diwedd uned a gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu. |
| **Cynllunio gwelliant** | |
| **Proses adnabod blaenoriaethau datblygu** | Mae`r adran yn defnyddio dadansoddiad o ddata perfformiad, tueddiadau dros gyfnod o amser, arsylwadau gwersi, arsylwadau llyfrau, gwaith monitro ffocws penodol, a holiaduron dysgwyr ar gyfer adnabod blaenoriaethau datblygu. Rhoddir sylw manwl i ansawdd dysgu ac addysgu ac i safonau cyflawniad disgyblion. Mae`r drefn yn cynnwys pob aelod o staff yr adran. Mae pob aelod o`r adran yn gwybod a deall perfformiad yr adran. Mae`r sail hon o wybodaeth yn dryloyw ac yn dda iawn.<br><br>Caiff blaenoriaethau ar gyfer gwella eu hadnabod yn effeithiol wrth ddefnyddio`r sylfaen gwybodaeth uchod a bydd pob aelod o staff yr adran yn cyfrannu`n amlwg i adnabod cyfeiriad. Mae`r blaenoriaethau hyn wedi'u seilio ar ganfyddiadau yn yr hunan arfarniad adrannol. Mae`r drefn hon felly yn eglur a chynhwysol ac yn safonol iawn.<br><br>Mae`r blaenoriaethau yn cynnwys ymgyfarwyddo â gofynion y cwrs TGAU newydd ac addasu cynlluniau gwersi blwyddyn 7 er mwyn cyfuno'r dosbarthiadau efo blwyddyn 8 ym mis Medi, gwahaniaethu'r adnoddau tasgau newydd ar gyfer pob ystod gallu, addasu tasgau gwerthuso CA3 i gyd fynd â dull newydd o werthuso yn y cwrs TGAU newydd<br>Mae'r adran yn adnabod blaeoriaethau dablygu yn seliedig ar flaenoriaethau'r ysgol.Mae'r adran wedyn yn pennu blaenoriaethau adrannol yn ychwanegol I'r rhain. |
| **Ansawdd cynllunio i wella?** | Beth ydy ansawdd y CDA? Mae ansawdd y CDA yn fanwl ac yn gyfredol.<br>Mae'r p. adran yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella gan nodi'n benodol yr hyn a ddisgwilir ac erbyn dyddiadau penodol. Bydd y P. Adran hefyd yn sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am eu cyflawni i aelodau staff.Mae'r CDA yn cynnwys Targedau, pwyntiau gweithredu, dangosyddion llwyddiant proses, dangosyddion llwyddiant canlyniad, tystiolaeth, cyfrifoldebau gweithredu, dyddiadau cwblhau, adnoddau.<br>Mae'r CDA yn nodi anghenion hyfforddiant er mwyn gallu cyflawni unrhyw cynlluniau I wella agwedd penodol o fewnn yr adran hefyd. |
| **Monitro CDA** | Mae`r CDA yn fanwl a phenodol ac o ansawdd da iawn ac yn nodi: Arfarniad cychwynnol; targedau penodol; camau gweithredu; dangosyddion llwyddiant; adolygiad cynnydd; cyfnod amser penodol; adnoddau anghenrheidiol; cyfrifoldeb gweithredu.<br><br>Mae`r prif flaenoriaethau wedi'u seilio ar flaenoriaethau`r ysgol gyfan sydd yn eu tro wedi eu seilio ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae`r cynllun hefyd yn cynnwys blaenoriaethau adrannol. Caiff y CDA ei adolygu yn ystod y flwyddyn er mwyn ystyried negeseuon creiddiol yn dilyn dadansoddiad canlyniadau CA3 a CA4 ac fe nodir hyn yn y CDA. Mae hyn yn arfer dda.<br><br>Mae`r pennaeth adran yn monitro cynnydd gweithrediad y cynllun dabtlygu yn drylwyr ac yn sicrhau fod y targedau yn cael eu cyflawni. Caiff y tagredau hyn hefyd eu herio a`u monitro yn y cyfarfodydd cyswllt UDRH. |
| **Adnoddau datblygol.** | Mae`r CDA yn nodi'n glir yr adnoddau sydd eu hangen ac anghenion datblygu'r staff |

| | |
|---|---|
| | ac amser paratoi. Mae pob datblygiad yn cael ei gostio'n ofalus o ran adnoddau a hyfforddiant staff a nodir hyn yn fanwl yn y CDA. Mae adnabod anghenion hyfforddiant yn ofalus wedi arwain at sicrhau hyfforddiant effeithiol mewn rhai meysydd fel asesu ar gyfer dysgu a llythrennedd, cyrsiau CBAC sydd yn ei dro wedi arwain at wella safonau. Mae hyn yn ei dro yn cael ei adlewyrchu yn llyfrau'r disgyblion yn y monitro llyfrau ac yn yr arslywadau gwersi a chyrhaeddiad y dysgwyr. |
| **Ansawdd trefn p adran i fynd i`r afael â materion tanberfformio a gweithredu er mwyn gwella.** | Mae arsylwadau gwersi a monitro llythrennedd yn rhoi tystiolaeth gadarn fod ansawdd addysgu llythrennedd, darllen, cwestiynnu, asesu ar gyfer dysgu a sgiliau meddwl yn dda o fewn yr adran. Mae'r niferoedd uchel sydd yn dewis dilyn y cwrs yn CA4 hefyd yn tystio i hyn.<br><br>Mae`r arfarnu wedi arwain at wella ansawdd darpariaeth llythrennedd a rhifedd o fewn yr adran ac mae`r adran yn hyderus y bydd canlyniadau uwch lefelau CA3 o ganlyniad hefyd yn cynyddu.<br><br>Cwblheir arfarniad blynyddol o weithredu yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Adrannol.<br>Mae'r adran yn flynyddol yn edrych ar gryfderau a gwendidau o fewn y radaran e.e adrannau gwan mewn papur arholiad ac yna blaenoriaethu gwella canlyniad yr adran penodol yna o fewn y papur ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae'r adran wedi sicrhau bod argymhellion blaenori ESTYN wedi cael eu gweithredu gan fod yr adran wedi gwahaniaethu adnoddau dysgu yn CA3 ac wedi gwella'r modd mae'r adran yn cwestiynnu o fewn y gwersi. Mae tystiolaeth o hyn yn arsylwadau gwersi ac adroddiadau monitro llyfrau'r adran<br><br>Eleni, mae adran gwanaf blwyddyn 11 yn y papur arholiad wedi cryfhau yn ol dadansoddiad canlyniadau CA4. Mae adroddiadau arsylwadau gwersi'r adran wedi cyfeirio at effeithiolrwydd cwestiynnu a gwahaniaethu o fewn yr adran.<br><br>I ba raddau mae pennaeth adran yn mynd i'r afael â materion tanberfformio staff yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen? Pa mor effeithiol ydach chi yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a pha mor gyflym rydych yn cychwyn unrhyw gamau unioni?<br><br>Mae'r Pennaeth adran yn darparu staff o fewn yr adran efo cynlluniau gwaith yr adran, yn ogystal a phob adnodd gwers ar gyfer y gwersi. Os oes yna achosion o tangyflawani, mae'r P. Adran yn darparu'r athrawon yma efo cynlluniau gwersi cam wrth gam fel bod modd sicrhau cysondeb a safonnau o fewn yr adran ac er mwyn osgoi materion o tan berfformio. Mae'r P.Adran hefyd yn ymweld a gwersi pan bod yna breeder ac yn monitor llyfrau ar hap. |
| **Cynnydd ers yr arolwg diwethaf.** | Mae'r adran wedi ymateb yn llawn i'r argymhellion a nodwyd ar gyfer gwelliant yn adroddiad yr arolwg blaenorol mewn perthynas â rhannu arfer dda mewn sesiynau hyfforddiant staff, ac efo aelodau newydd o staff yn yr adran. Mae'r adran hefyd wedi rhannu arfer dda efo adran Addysg Grefyddol mewn ysgol gyfagos pan newidiwyd i ddilyn yr un cwrs CBAC roeddem eisoes yn ei ddilyn. Yn ogystal mae'r Pennaeth adran wedi llwyddo i rannu arfer dda drwy bod yn fentor ar aelod o staff yn yr ysgol. Mae pob aelod o'r adran ar bwyllgor gwella'r ysgol ac felly yn cael rhannu arferion da gydag aelodau eraill o staff yn y sesiynau yma. Mae'r adran wedi ymateb i'r argymhelliad o sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o'u targedau yn y pwnc drwy roi cyfle i'r disgyblion cael mewnbwn i'r broses o osod targedau. Bydd mentoriaid yn trafod targedau unigol y disgyblion ym mhob pwnc yn ystod y noson tiwtoriaid. Yn ogystal mae targedau pob disgybl ym mhob pwnc wedi cael eu cofnodi yn eu llyfrau cyswllt, lle bydd y mentoriaid yn monitro cynnydd y disgyblion mewn cyfres o gyfweliadau penodol er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd ac yn cyrraedd ei darged. Mae'r adran hefyd wedi cael cyfle i rannu |

| | |
|---|---|
| | arferion dda o ran defnyddio TGCH o fewn y gwersi mewn sesiwn efo aeloadau eraill o staff e.e Wordwall.Mae'r adran hefyd wedi gwahaniaethu'r cynlluniau gwaith yn fanwl gan gynnwys adnoddau dysgu gwahaniaethol ar gyfer brig yr ystod gallu a'r dysgwyr ady. |

| **Tystiolaeth** | |
|---|---|
| Dogfen hunanarfarnu<br>Cofnod trefn arfarnu<br>Arsylwadau gwersi.<br>Arsylwadau llyfrau.<br>Holiadur dysgwyr.<br>Adroddiad cyswllt UDRH.<br>CDA | Adroddiadau monitro/adolygu CDA.<br>Adnoddau CDA<br>Cofnod RHP.<br>Dad. data.<br>Adroddiadau safonwyr.<br>Adolygiad ôl arolwg. |

**5.3 Dysgu proffesiynol**

| **Agwedd** | **Arfarniad** |
|---|---|
| **Cyfeiriad dysgu proffesiynol.**<br><br>**Ansawdd cynllunio dysgu proffesiynol.** | Mae'r angen ar gyfer dysgu proffesiynol wedi cael ei selio ar arfarniad yr adran a'r anghenion sy'n codi o hyn yn ogystal a unrhyw anghenion dysgu proffiynol sy'n codi yn dilyn blaenoriaethau y CDY. Mae hyn yn golygu bod cyfeiriad dysgu proffesiynol yn cael ei gynllunio'n rhagweithiol. |
| **Ethos dysgu proffesiynol.** | Mae'r pennaeth adran wedi creu diwylliant ac ethos cadarn i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff o fewn yr adran, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol os nad ydynt yn arbenigwyr yn y pwnc. |
| **Rheoli perfformiad, myfyrio a chyswllt â blaenoriaethau CDY**. | Gweithredir trefniadau Rheoli Perfformiad yn llawn a chaiff pob aelod o staff yr adran fynediad i gyfleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant. Mae`r amcanion RP wedi eu seilio ar flaenoriaethau CDA a CDY.<br><br>Mae blaenoriaethau RP staff yr adran wedi'u seilio`n gadarn ar gyswllt clir rhwng y CDA a gweithdrefnau Rheoli Perfformiad. Mae hyn yn ei dro wedi sicrhau mwy o bwyslais ar weithredu holl ofynion y CDA ac mae wedi arwain at wella ansawdd darpariaeth llythrennedd ac asesu ar gyfer dysgu yr adran.<br><br>Mae'r P.Adran yn darparu holl adnoddau ar gyfer gwersi'r aelodau eraill gan gynnwys cynlluniau gwersi, taflenni gwaith ayyb fel bod y staff yn gallu gwella eu harfer o fewn yr adran. Mae hyn hefyd yn sicrhau cysondeb rhwng gwersi ayyb. |
| **Ansawdd arweiniad dysgu proffesiynol a gwerthuso.** | Beth yw ansawdd dysgu proffesiynol o fewn yr adran? Ydy staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad? |

| | Barn gryno Cwestiwn 5<br>Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| **Rhannu arfer dda fel dull effeithiol i godi safonau**<br><br>**(o fewn a thu hwnt yr ysgol)** | Mae'r P.Adran yn rhannu adnoddau/cynlluniau gwersi sydd wedi cael eu harsylwi gan aelod o'r Udrh neu JH. Mae hyn yn sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei rannu o ansawdd rhagorol/da.<br>Mae'r pennaeth adran wedi cael cyfle i rannu arfer dda fel dull effeithiol I godi safonnau drwy gael gwneud cyflwyniadau ar gyfer aelodau eraill o staff e.e. metawybyddiaeth a wordwall. Mae cyfleoedd hefyd wedi bod er mwyn arsylwi gwersi cydweithwyr er mwyn rhannu arfer dda.<br>Mae'r udrh wedi darparu mpll ar gyfer sicrhau beth sydd yn gwneud gwersi rhagorol ayyb er mwyn sicrhau nad yw staff yn rhannu ansawdd canolig. Wrth ddefnyddio Iris connect mae un aelod o'r udrh hefyd yn gwylio'r wers ac yn cael mewnbwn er mwyn sicrhau cysondeb o rannu arfer dda.<br>Mae'r gyfadran ddyniaethau yn cydweithio yn agos er mwyn rhannu syniadau da. Mae'r Pennaeth adran yn rhan o grwp Hwb Gwynedd a Mon sydd wedi cydweithio er mwyn creu adnoddau ar gyfer y fanyleb TGAu newydd. SR wedi rhannu adnoddau TGAU efo'r Adran Addysg Grefyddol YDO. |
| **Disgwyliadau cytunedig.** | Mae gan staff yr adran berchnogaeth ar y 18 canllaw cytunedig isod ac mae ganddynt y sgiliau i`w cyflwyno'n effeithiol o fewn y gwersi. Ceir tystiolaeth o hyn o fewn adroddiadau arsylwi gwersi ac adroddiadau monitor llyfrau. Asesu, asesu ar gyfer dysgu, sgiliau meddwl, llythrennedd, rhifedd, cwricwlwm digidol, addysgu bechgyn, cwestiynu gwahanol lefelau o ddealltwriaeth, cwestiynu dealltwriaeth ieithyddol, meddwl dwfn, gwahaniaethu, dysgu disgyblion ar frig yr ystod gallu, dysgu disgyblion ar waelod yr ystod gallu, gwneud defnydd effeithiol o gymorthyddion, hyrwyddo hyder disgyblion yn y Gymraeg, dysgu dwyieithog, dysgu disgyblion â gwahanol lefelau o hyfedredd yn y Gymraeg o fewn yr un grŵp, sicrhau cynnydd yn y sgiliau dysgu craidd. |
| **Effaith dysgu proffesiynol.** | Mae'r Pennaeth adran yn sicrhau bod y datblygiadau diweddaraf o fewn y pwnc neu o fewn dysgu yn cael eu treiddio mewn i gynlluniau gwaith yr adran e.e manylebau TGAU newydd. Yn ogystal, mae'r pennaeth adran yn ymdrechu i ddefnyddio meddalwedd dysgu diweddaraf fydd yn cyfoethogi'r dysgu yn dilyn hyfforddiant e.e. wordwall, spark video ayyb. |

| **Tystiolaeth** | |
|---|---|
| Arfarniad adrannol.<br>CDA.<br>Rhaglen hyfforddiant.<br>Cofnod rhannu arfer dda a chofnod cydweithio.<br>Holiadur staff. | Trefn rheoli perfformiad.<br>Adroddiadau craffu llyfrau.<br>Adroddiadau arsylwi gwersi.<br>Fforwm disgyblion.<br>Holiadur disgyblion. |

| **5.4 Defnyddio adnoddau** | |
|---|---|
| | |
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Defnydd effeithiol o adnoddau ac amgylchedd dysgu** | Mae'r adran yn gwneud defnydd effeithiol iawn o adnoddau'r e.e. arteffactau ayyb. Mae adnoddau dysgu'r adran yn dda ond bydd angen buddsoddi mwy er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm digidol yn effeithiol e.e. VR. Mae'r amgylchedd dysgu yn cefnogi'r dysgu gan ei fod yn atgyfnerthu rhai elfennau o'r gwaith/codi diddordeb ayyb. |
| **Dealltwriaeth arweinwyr o gostau adnoddau.** | Mae costau cyrsiau TGAU CBAC yn gostus iawn- tua £200. Ond, o ystyried bod y cwrs TGAU newydd yn hollol wahanol i'r hen fanyleb cred yr adran bod y gwariant yma yn hanfodol er mwyn i'r P.Adran ddeall cynnwys y cwrs a thechnegau ateb cwestiynnau o fewn y papur yn enwedig y cwestiynnau gwerthuso 15 marc. |
| **Staffio`r cwricwlwm.** | Mae gan y P.Adran Radd 2:1 mewn Addysg Grefyddol a Diwynyddiaeth yn ogystal a chymhwyster TAR uwchradd o Phrifysgol Cymru, Bangor. Mae'r P.Adran yn dysgu'r pwnc ers 2002. Mae gan yr adran eleni lefel briodol o staff er mwyn cyflwyno'r pwnc yn effeithiol-gyda dim on un aelod o staff heb arbennigedd yn ei gyflwyno i blwyddyn 7/8 Mignaint. |

| | Barn gryno Cwestiwn 5<br>Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| | Gwneir defnydd da iawn o gymorthyddion dosbarth i gefnogi'r dysgu ac mae perfformiad dysgwyr ADY yn gadarn ac yn gryf iawn dros y cyfnod treigl. Mae'r adran yn gwneud defnydd effeithiol iawn o gymhorthydd sydd ag arbennigedd pynciol er mwyn cefnogi disgyblion CADD neu sydd wedi cael ei hadnabod fel rhai sydd yn tangyflawnni. |
| **Defnydd o adnoddau i wella lles corfforol a meddyliol disgyblion.** | Mae'r adran yn gweithredu yn effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion drwy rhoi cyfleoedd amrywiol a healaeth iddynt allu trafod materion cyfoes yn ogystal a mynegi barn am wahanol materion. |
| **Defnydd o adnoddau i gefnogi disgyblion bregus.** | Mae'r adran yn gweithredu yn effeithiol i gefnogi disgyblion bregus drwy'r lefel o gefnogaeth mae'n roi iddynt e.e. ystyriaeth wrth osod gwaith cartref, cefnogaeth wrth adolygu, benthyg adnoddau ayyb. |

| **Tystiolaeth** | |
|---|---|
| Adnoddau yr adran.<br>Adr cydweithio â phartneriaid.<br>CDA a phroses adolygiad CDA. | Adnoddau staffio yr adran.<br>Adroddiad cynlluniau penodol ac adroddiad arfarnu ar gynlluniau penodol. |

| Agwedd | Cryfderau | Materion ar gyfer gweithredu pellach |
|---|---|---|
| 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr | • Mae ansawdd yr arweiniad adrannol yn gadarn.<br>• System Monitro'r adran<br>Ymateb yr adran i flaenoriaethau cenedlaethol. | Hyfforddi'r cymhorthydd yn y datblygiadau sydd yn y cwrs TGAU newydd. |
| 5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynlluniau gwella | • Ansawdd gweithdrefnau adnabod blaenoriaethau a datblygu.<br>• Mae dogfen hunanarfarnu`r adran yn safonol. | • Datblygu trefn ar gyfer rhoi mwy o gyfleoedd i lais y dysgwr yn ffurfiol e.e. holiadur |
| 5.3 Dysgu proffesiynol | • Cynllun datblygu adrannol<br>Adnabod blaenoriaethau | • Sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o'i darged personol yn y pwnc a'r hyn sydd yn rhaid iddo wneud i wella. |
| 5.4 Defnyddio adnoddau | | |

**Dyddiad adolygu:** **Gan:**